

## Peniel, Saron a Nantglyn

**Sul yma – 13<sup>eg</sup>**

➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith (Peniel, Saron a Nantglyn) ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.

**Gwener – 18<sup>fed</sup>**

➤ **Oedfa Diolchgarwch** yng Nghapel Peniel am 7.00. Pregethir gan y Parch. John Owen, Rhuthun.

**Sul nesaf – 20<sup>fed</sup>**

➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant a'r Ieuenctid yn Saron am 10.00. Byddwn yn casglu bwydydd i'r banc bwyd.

➤ Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn Nantglyn am 2.00.

**Sul canlynol – 27<sup>ain</sup>**

➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.

## Cofion a Chyfarchion

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

Anfonwn ein cofion at Ceinlys M. Jones (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Cofiwch am eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd hefyd. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwion a Sarah Dafydd (Hiraethog) sydd wedi eu bendithio â rhodd o ferch, Buddug Mair. Diolchwn gyda hwy i Dduw am ei ddaioni, a chyflwynwn y teulu bach i'w ofal.

## I ddod

- **GWASANAETH DIOLCHGARWCH CAPEL CEFN MEIRIADOG** nos Fawrth, Hydref 29ain am 7.00. Pregethir gan y Parch. John Pritchard, Llanberis. Croeso cynnes i bawb.
- **CLWB HYDREF (BL. 3-6)** yng Ngholeg y Bala, Hydref 28ain-29ain. Y gost fydd £40 sy'n cynnwys bwyd, llety a'r holl weithgareddau (hanner pris ar gyfer yr ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Mae'n bosib mynd am ddiwrnod yn unig am £12.00. Cofiwch bod **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**, diolch i haelioni Eglwysi Bro Aled. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: [colegybala.org](http://colegybala.org) neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID (BL. 7-11)** yng Ngholeg y Bala, Tachwedd 1af – 3ydd. Y gost fydd £63 (neu £31.50 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu). Cofiwch bod **£10 o ostyngiad i bob unigolyn**, diolch i haelioni Eglwysi Bro Aled. I archebu lle, cofrestrwch ar-lein: [colegybala.org](http://colegybala.org) neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.



## Llais Bro Aled

Hydref 13<sup>eg</sup> ac 20<sup>fed</sup>, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

'Diolchwch i'r Arglwydd, Galwch ar ei enw, gwnewch yn hysbys ei weithredoedd ymysg y bobloedd.' (Salm 105:1) Gyda'r anogaeth yna o Lyfr y Salmau, trown at Dduw heddiw yn ostyngedig, yn gofyn am ei faddeuant ac arweiniad yr Ysbryd Glân i ddweud wrth eraill amdano. Ac wrth i ni addoli, diolchwn am ei ras a'i gariad rhyfeddol tuag at bechaduriaid trwy ei Fab annwyl, Iesu Grist.

Ychydig wythnosau yn ôl, roeddwn yn y car yn gwrandao ar raglen radio Beti a'i Phobl a hithau'n holi Iwan 'Iwcs' Roberts; un rhan o'r ddeuawd Iwcs a Doyle. Yn ystod y sgwrs daeth i'r amlwg fod teulu Iwan Roberts wedi wynebu sioc enbyd pan fu farw ei frawd yn nhrychineb Piper Alpha ym 1988. Rig olew a nwy ym Môr y Gogledd oedd Piper Alpha, wedi'i lleoli dros gan milltir i'r gogledd ddwyrain o Aberdeen ac fe laddwyd 167 o ddynion yno mewn ffrwydriadau trychinebus. Ymhlith y rhai fu farw roedd dau ŵr oedd ar fad achub oedd yn ceisio cynorthwyo'r gweithwyr i ddianc rhag y tân. Wrth feddwl am golled o'r fath mae rhywun yn llawn edmygedd o'r dewrder y mae achubwyr bywyd megis y rhain yn ei arddangos mor aml yn eu gwaith. Pan fo pawb arall yn dianc am eu bywyd oddi wrth berygl, maent hwy'n rhedeg i'w ganol er mwyn achub eraill. Diolchwn am bawb sydd mewn swyddi o'r fath, ac am eu parodrwydd i aberthu eu diogelwch eu hunain er mwyn eraill.

Ac wrth i ni droi at y Beibl, hanes digon tebyg sy'n ein hwynebu. Rhywun oedd yn barod i fynd i ganol sefyllfa drychinebus a pheryglus er mwyn achub eraill, ac wrth gwrs yr Arglwydd Iesu Grist oedd hwnnw. Mae'r Beibl yn ein dysgu fod Mab Duw wedi dod yn un ohonom – wedi darostwng ei hun i ddod fel caethwas (Philipiadaid 2:7) oherwydd bod dynion a merched pechadurus mewn angen difrifol gan eu bod wedi'u gwahanu oddi wrth eu Creawdwr. Yn hytrach na throï cefn ar bobl mewn amgylchiadau difrifol, daeth Crist i ganol eu helbul gan ildio'i fywyd ar y Groes er mwyn achub rhai na allai achub eu hunain.

Ydym ni'n wan ac ar goll, ydym ni'n ansicr lle i droi am obaith? Awn at Iesu mewn ffydd: yr Un ddaeth yn debyg i ni er mwyn dod â ni i berthynas iawn â Duw.

Felly roedd rhaid i Iesu gael ei wneud yn union yr un fath â ni, ei "frodyr a'i chworydd." Dim ond wedyn y gallai fod yn archoffeiriad trugarog a ffyddlon yn gwasanaethu Duw, ac yn cyflwyno aberth fyddai'n delio gyda phechodau pobl a dod â nhw i berthynas iawn gyda Duw. Am ei fod e'i hun wedi dioddef ac wedi cael ei demtio, mae'n gallu'n helpu ni pan fyddwn ni'n wynebu temtasiwn.' (Hebreaid 2:17-18 Beibl.net)

Rhodri

## Y Fro

**Sul yma – 13<sup>eg</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

Mercher – 16<sup>eg</sup>

- **“Beth yw eglwys?”** yn Llansannan am 7.30. Cyfle i drafod beth mae'r Beibl yn ei ddweud ac i ystyried yr her i'r eglwys heddiw. Croeso i bawb.

Iau – 17<sup>eg</sup>

- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.

**Sul nesaf – 20<sup>fed</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Mercher – 23<sup>ain</sup>

- **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.

Iau – 24<sup>ain</sup>

- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.

Gwener – 25<sup>ain</sup>

- **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) yn Llansannan am 7.30.

**Sul canlynol – 27<sup>ain</sup>**

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Andras Iago yn pregethu.

## Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

**Sul yma – 13<sup>eg</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Bydd Rhodri yn arwain Oedfa Diolchgarwch i'r Teulu yn Llansannan am 11.00. Gwerthfawrogi cyfraniadau ar gyfer y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda.

Mawrth – 15<sup>fed</sup>

- Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.00-2.30 (*sylwch ar yr amser*) yng nghwmni Eleri Ames.

Mercher – 16<sup>eg</sup>

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (13<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.

**Sul nesaf – 20<sup>fed</sup>**

- Bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yno am 11.00.

Llun – 21<sup>ain</sup>

- Cymdeithas Llansannan – Noson yng nghwmni Hogie'r Berfeddwlad yn Ffestri Llansannan am 7.30. Croeso i bawb.

Mercher – 23<sup>ain</sup>

- Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (20<sup>fed</sup>)**, os gwelwch yn dda.

Iau – 24<sup>ain</sup>

- Oedfa Diolchgarwch Capel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.00 gyda'r Parch. Gareth Edwards yn pregethu. Croeso i bawb.

**Sul canlynol – 27<sup>ain</sup>**

- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00. Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

## Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

**Sul yma – 13<sup>eg</sup>**

- Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith (Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes) **yn Llanefydd am 10.30.**

Llun – 14<sup>eg</sup>

- Gwasanaethau Diolchgarwch Capel Henllan – bydd plant Ysgol Henllan yn ymuno mewn gwasanaeth am 2.00 a bydd Rhodri yn rhoi sgwrs i'r plant. Arweinir oedfa'r hwyr am 7.00 gan y Parch. W. H. Pritchard. Bydd casgliad arbennig o ddewis yr ysgol yn mynd tuag at Tŷ Gobaith, ynghyd â chasgliad rhydd yr hwyr.

Gwener – 18<sup>fed</sup>

- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (13<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
- Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yng Nghapel Groes am 7.00 gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu.

**Sul nesaf – 20<sup>fed</sup>**

- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.

Mercher – 23<sup>ain</sup>

- Swper Diolchgarwch yn Neuadd Llanefydd am 7.00. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Tecwyn Ifan.

Iau – 24<sup>ain</sup>

- Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Capel Cefn Berain am 7.00 gyda'r Parch. Gerwyn Roberts yn pregethu.

**Sul canlynol – 27<sup>ain</sup>**

- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Bydd Dr Owain Roberts yn arwain oedfa yn Henllan am 9.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.45.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (23<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.